Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru
North Wales Economic Ambition Board

## TAFLEN BENDERFYNIAD BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU

**DYDDIAD Y PENDERFYNIAD** 9 Rhagfyr 2022

**PWNC**

Eitem 5: CRONFA CYFLAWNI'R PORTFFOLIO

**PENDERFYNIAD**

**Bod y Bwrdd yn cytuno i sefydlu Cronfa Cyflawni Portffolio ar gyfer 2023-24 a chlustnodi hyd at £7m o'r £20m o gyllid y Cynllun Twf nad yw wedi'i glustnodi a ryddhawyd i'r gronfa hon yn sgil y ffaith bod prosiectau Safle Strategol Allweddol Bodelwyddan a Fferm Sero Net Llysfasi wedi'u tynnu'n ôl.**

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Mae gan Gynllun Twf Gogledd Cymru broses rheoli newid yn ei lle i sicrhau bod newidiadau posib i sgôp y Cynllun Twf a'r prosiectau yn cael eu dal, eu hasesu a lle bo hynny'n berthnasol, eu hystyried gan y Bwrdd.

Mae'r Cytundeb Twf Terfynol yn nodi sefyllfa'r bwrdd mewn perthynas â phrosiectau amgen posib:

"*Rhaid i unrhyw brosiectau newydd neu amgen sydd i'w cyflwyno am ystyriaeth, ddangos eu bod yn cyflawni yn erbyn yr achos busnes rhaglen perthnasol ac amcanion yr achos busnes portffolio. Lle mae'r prosiectau hyn o fewn yr amlen ariannol gytûn bresennol ar gyfer y bartneriaeth, byddai angen i'r Bwrdd Uchelgais Economaidd wneud penderfyniad yn eu cylch.*"

Ym mis Medi 2022, fe wnaeth y Bwrdd gytuno ar gyfres o egwyddorion er mwyn adnabod prosiectau newydd yn cynnwys y bydd y Bwrdd yn ystyried, i ddechrau ac ar sail achos wrth achos, geisiadau gan brosiectau presennol ar gyfer cyllid ychwanegol sy'n bodloni cyfres o feini prawf.

Gan adeiladu ar yr egwyddor a fabwysiadwyd gan y Bwrdd ym mis Medi, gofynnwyd i'r Bwrdd ystyried clustnodi cyfran o'r cyllid a gaiff ei ryddhau o brosiectau Bodelwyddan a Llysfasi i Gronfa Cyflawni'r Portffolio i gefnogi prosiectau aeddfed o fewn y portffolio sy'n gorfod ymdopi â chynnydd mewn costau neu faterion hyfywedd er mwyn gallu symud i

gyflawni yn ystod 2023-24 (yn amodol ar benderfyniadau ar wahân gan y Bwrdd).

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL**

Datganodd Dafydd Evans a Maria Hinfelaar fuddiant personol oherwydd bod yr adroddiad yn crybwyll dyrannu adnoddau penodol i brosiectau Grŵp Llandrillo Menai a Phrifysgol Glyndŵr, ac oherwydd natur ariannu uniongyrchol yr eitem.

Roedd y cynrychiolwyr o'r farn bod y buddiant yn rhagfarnu a gadawsant y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn sydd wedi ei gynnwys yn yr adroddiad.

Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru
North Wales Economic Ambition Board

**TAFLEN BENDERFYNIAD BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU**

**DYDDIAD Y PENDERFYNIAD** 9 Rhagfyr 2022

**PWNC**

EITEM 6: PROSES NEWID PROSIECT

**PENDERFYNIAD**

1. **Cytuno ar y sgôp a'r lleiafswm gofynnol fel y nodir yn yr adroddiad i'r Bwrdd, yn amodol ar ddiwygio'r geiriad '*Rhaid i gynigion gyflawni ar gyfer cymunedau gwledig'* (Atodiad A – Gofynion Sylfaenol – Ffit Strategol – Rhaglen Bwyd-Amaeth a Thwristiaeth) i ddarllen '*Dylai cynigion bwysleisio cyflawni ar gyfer cymunedau gwledig'.***
2. **Cytuno i'r amserlen a nodir yn yr adroddiad gan gynnwys lansio'n ffurfiol ym mis Ionawr 2023.**
3. **Dirprwyo'r awdurdod i'r Cyfarwyddwr Portffolio i weithredu'r Broses Newid Prosiectau fel y nodir yn yr adroddiad ac i gymryd yr holl gamau angenrheidiol i gwblhau'r dogfennau sydd eu hangen i gychwyn y broses.**

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Mae gan Gynllun Twf Gogledd Cymru broses rheoli newid yn ei lle i sicrhau bod newidiadau posib i sgôp y Cynllun Twf a'r prosiectau yn cael eu dal, eu hasesu a lle bo hynny'n berthnasol, eu hystyried gan y Bwrdd.

Mae'r Cytundeb Twf Terfynol yn nodi sefyllfa'r bwrdd mewn perthynas â phrosiectau amgen posib:

"*Rhaid i unrhyw brosiectau newydd neu amgen sydd i'w cyflwyno am ystyriaeth, ddangos eu bod yn cyflawni yn erbyn yr achos busnes rhaglen perthnasol ac amcanion yr achos busnes portffolio. Lle mae'r prosiectau hyn o fewn yr amlen ariannol gytûn bresennol ar gyfer y bartneriaeth, byddai angen i'r Bwrdd Uchelgais Economaidd wneud penderfyniad yn eu cylch.*"

Ym mis Medi 2022, fe wnaeth y Bwrdd gytuno ar gyfres o egwyddorion er mwyn

adnabod prosiectau newydd a phroses tri cham, sef Cam 1: Sganio'r Gorwel, Cam 2: Creu Rhestr Hir a Rhestr Fer a Cham 3: Cymeradwyo a Datblygu'r Achosion Busnes.

Gofynnwyd i'r Bwrdd gytuno ar y sgôp a'r lleiafswm gofynnol ar gyfer y cam sganio'r gorwel.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn sydd wedi ei gynnwys yn yr adroddiad.